

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
6 Chwefror 2014 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr Sioned Williams (Cadeirio, yn absenoldeb Erddyn Davies), Rhys Pugh, Gwyneth Thomas, Ifor D. Williams, Geraint R. Jones
Huw Llwyd Rowlands, clerch

Cydymdeimlwyd gyda'r Cadeirydd, Erddyn Davies oherwydd profedigaeth diweddar ei fam.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Emyr Williams am gael ei benodi yn Brif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri.

1. DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL

Dim.

2. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Erddyn Davies, Eddie Hughes, Emyr Williams, Chris Hughes.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd.

Cynnig: Ifor D. Williams Eilio: Gwyneth Thomas

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 PROBLEMAU PARCIO LÔN GROES

Bu'r Cynghorydd Chris Hughes mewn cysylltiad gyda Cyngor Gwynedd. Mae Cyngor Gwynedd wedi dweud yn glir nad oes ganddynt unrhyw fwriad i wario er mwyn gwneud gwelliannau i'r broblem barcio yn Lôn Groes. Pan awgrymwyd y dylid gosod cyfyngiad ar barcio i breswylwyr Lôn Groes yn unig, eglurwyd mai'r broblem yw nad oes digon o le i drigolion Lôn Groes barcio yno beth bynnag. Gan fod y Cynghorydd Chris Hughes wedi bod mewn cysylltiad gyda Cyngor Gwynedd ar y mater, penderfynwyd gofyn iddo gysylltu unwaith eto er mwyn trafod yr hyn sy'n bosibl.

4.2 PARC Y PLWYF, LLANFAGLAN

Mae North Wales Fencing wedi gorfffen y gwaith ychwanegol o osod y llechi, ac fe fynegodd y Cynghorydd Ifor D. Williams fodlonrwydd efo'r gwaith. Penderfynwyd talu anfonebau North Wales Fencing.

4.3 FFOSYDD RHOS-BACH AT CAE HOBSON

Cytunwyd i argymhelliad Cyngor Gwynedd, sef i leinio'r ffos, gosod llinell wen ac ymylfaen. Eglurodd y Cyngor fod yr ymylfaen yno i warchod ymyl y ffordd ac nid i rwystro olwynion cerbydau rhag disgyn i mewn i'r ffos. Gallant nodi'r gwaith o wella'r ffos ar eu rhaglen waith, ond ni fedrant roi amserlen o ran pryd y cyflawnir y gwaith. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i safleoedd mwy anghennus yn gyntaf. Derbyniwyd esboniad Cyngor Gwynedd, ac fe benderfynwyd ysgrifennu atynt yn gofyn iddynt wneud y gwaith ar y sail yma.

4.4 CYFETHOL AELOD

Adroddwyd fod person wedi mynegi diddordeb yn anffurfiol i un o'r cynghorwyr, a gofynnwyd bod unrhyw un sydd gyda diddordeb yn ysgrifennu at y clerc.

4.5 BAW CŴN YN NHERAS BRYMER

Mae Cyngor Gwynedd yn dweud eu bod wedi gosod arwyddion yn y lleoliadau canlynol:

- Diwedd Rhes Brymer ac ar ddechrau'r llwybr i gyfeiriad y dwyrain
- 2 arwydd yn Lôn Groes
- Ger pont y rheilffordd ar y llwybr sydd yn arwain at Lôn Eifion
- Lôn Pant

Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi gofyn i'r Warden Gorfodaeth Stryd fonitro'r ardal(oedd) dan sylw fel rhan o batrolau rheolaidd ym Montnewydd.

4.6 AROSFAN BYSIAU BONTNEWYDD

Mae'r clerc wedi gofyn am bris paentio'r arosfan ym Montnewydd sydd ar yr A487 i gyfeiriad Dinas, ac yn benodol pris paentio mainc yr arosfan, gan mai dyma'r darn sydd yn y cyflwr gwaethaf.

4.7 SEMINAR SAFLEOEDD TAI POSIBL GWYNEDD A MŴN

Fe fynychodd y Cynghorydd Dafydd Iwan a Chris Hughes y seminar cyn y Nadolig. Y clerc i ofyn os oedd ganddynt unrhyw beth i'w adrodd yn dilyn y cyfarfod.

5. MATERION ARIANNOL

Cytunwyd i dalu :

Cyflog a chostau clerc Rhagfyr a Ionawr 2014

Rhagfyr

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Ionawr

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £506.36

Cyfanswm Net £423.16

Costau postio 3x ail ddsbarth £1.50

Costau teithio y Cynghorydd Sioned Williams i Bwyllgor Ardal Arfon

Dwyfor Un Llais Cymru 5mx.45c £2.25

Anfonebau North Wales Fencing am waith ym Mharc y Plwyf Llanfaglan

£2839.20 (**pris gwreiddiol**)

£1196.40 (**gwaith ychwanegol**)

Cyfanswm £4035.60

Anfoneb 1521 Un Llais Cymru – cost cwrs Y Cyngor a fynychwyd gan y Clerc. - £30.00

Wyn Williams – glanhau cysgodfannau Rhagyfr 2013 a Ionawr 2014 Anfoneb 1330 £165.00

Praesept

£11,000 yw swm y praesept ar gyfer 2013/14. Yn ychwanegol at y swm yma bu Cyngor Gwynedd yn talu grant o £3,000 yn flynyddol. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn talu'r grant yma mwyach. Trafodwyd y diffyg o £3,000 fydd yn y gyllideb, ac fe benderfynwyd codi'r prasespt £1,500, o £11,000 i £12,500. Golyga hyn £1,500 yn llai o gyllideb, a lleihad ychwanegol mewn termau real gan na fu cynydd yn swm y prasespt i gymeryd chwyddiant i ystyriaeth.

Archwiliad Blynyddol am y flwyddyn yn gorffen 2013

Cymeradwyd y Ffurflen Flynyddol ddrafft a baratowyd gan y cyfrifwyr Unity Hacker Young.

6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7. GOHEBIAETH

Un Llais Cymru

Manylion cyrsiau hyfforddi ar gyfer 2014 – derbyn er gwybodaeth

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :

Cofnodion cyfarfod CHWEFROR 2014

Rheolau Sefydlog – Un Llais Cymru wedi diweddarau'r Rheolau Sefydlog. Disgwylir fersiwn Gymraeg. Y Clerc i ystyried a phenderfynu os oes angen diweddarau'r rheolau sefydlog.

Ymgynghoriad ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgynghori ar y ffioedd sydd yn daladwy am arolygu cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Derbyn er gwybodaeth.

Llythyr gan Alun Ffred Jones A.C. – Cronfa Treftadaeth Loteri

Penderfynwyd trafod y cais ariannol yma gyda cheisiadau ariannol eraill yng nghyfarfod mis Mawrth.

Holiadur Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd

Adroddodd y clerch ei fod wedi cwblhau'r holiadur a'i ddychwelyd i Gyngor Gwynedd

Panel cynghori'r Prif Weinidog ar leoliad y Ganolfan Gofal Dwys Is-ranbarthol ar gyfer babanod newydd-anedig yn y Gogledd

Derbyn er gwybodaeth

Cynllun Heddlu a Throsedd Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru

Derbyn er gwybodaeth

Cyfarfod Blynyddol Cynghrair Cymunedau Cymraeg

Mae cyfarfod cyntaf Cynghrair Cymunedau Cymraeg ar 1 Mawrth yn Oriel Ynys Môn. Y gwr gwadd yw'r Bargyfreithiwr Gwion Lewis, a bwriedir trafod gweithredu drwy gfrwng y Gymraeg a materion cynllunio

8. MATERION ERAILL

8.1 Adroddiad archwilio llifogydd Bontnewydd 22 Tachwedd 2012, Cyngor Gwynedd

Trafodwyd adroddiad Ymgynghoriaeth Gwynedd ar y llifogydd fu yn Arfon House, Bontnewydd ar 22/11/2012. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn pa gamau y byddant yn eu cymeryd er mwyn sicrhau fod y gwendidau o ran pibellu a llif y dŵr arweiniodd at y llifogydd yn cael eu cywiro.

8.2 Cyflwr y ffordd yn Llanfaglan a Lôn Groes

Mae cyflwr y ffordd rhwng y Bontnewydd a Plas Llanfaglan yn wael. Ymddengys fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn trwsio'r darn rhwng y groesffordd yn Llanfaglan a Plas Llanfaglan, ond mae darnau o'r ffordd o'r gyffordd i'r gogledd i gyfeiriad Y Bontnewydd yn parhau yn wael.

Bu i'r Cynghorydd Emyr Williams roi gwybod fod cyflwr ffordd y Lôn Groes yn Y Bontnewydd hefyd yn wael.

Penderfynwyd gofyn i'r clerc gysylltu gyda Cyngor Gywnedd gan ofyn iddynt wneud gwaith trwsio ar y darnau yma.

8.3 Gosod tir Parc y Plwyf Llanfaglan

Penderfynwyd gofyn i'r clerc osod hysbyseb yn gofyn os oedd unrhyw un gyda diddordeb i bori'r cae y tu ôl i Barc y Plwyf, Llanfaglan

9. MATERION EITHRIEDIG

Dim mater eithriedig i'w drafod

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : 6 Mawrth 2014, am 7yh.